OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1237

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2020

## RHAN 3

### Rheoliadau Rhif 3 a Rheoliadau Rhif 4

**Diwygiadau i Reoliadau Rhif 3 sy'n ymwneud â phersonau sydd wedi bod yn Nenmarc yn ddiweddar**

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Rhif 3 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl rheoliad 9 mewnosoder—

"**Cyfyngiadau sy'n ymwneud â phersonau sydd wedi bod yn Nenmarc yn ddiweddar**

**9A.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo person ("P")—

(a) yng Nghymru am 4.00 a.m. ar 7 Tachwedd 2020,

(b) wedi cyrraedd Cymru o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dod i ben yn union cyn 4.00 a.m. ar 7 Tachwedd 2020, ac

(c) wedi bod yn Nenmarc o fewn y cyfnod hwnnw.

(2) Nid yw rheoliadau 3 i 7 yn gymwys i P nac i unrhyw berson sy'n byw ar yr un aelwyd â P.

(3) Ni chaiff P, nac unrhyw berson sy'n byw ar yr un aelwyd â P, adael y man lle maent yn byw tan ddiwedd y cyfnod o 14 diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod y cyrhaeddodd P Cymru.

(4) Ond gall P, neu berson sy'n byw ar yr un aelwyd â P, adael y man lle maent yn byw—

(a) i geisio cynhorthwy meddygol, pan fo angen y cynhorthwy hwnnw ar frys neu yn unol â chyngor ymarferydd meddygol cofrestredig;

(b) os yw cwnstabl yn dweud fod yn rhaid gwneud hynny;

(c) er mwyn osgoi salwch difrifol, anaf difrifol neu risg arall o niwed difrifol."

(3) Yn rheoliad 24(1), ar ôl "3(1)" mewnosoder "9A(3)".

(4) Yn rheoliad 26(1), ar ôl "3(1)" mewnosoder "9A(3)".

(5) Yn rheoliad 29(1)(b), ar ôl "5(1)" mewnosoder ", 9A(3)".